



Tystysgrif Mynediad mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg

Arholiad 1 Chwefror 2019

PRAWF SIARAD

Taflen y Cyfwelydd

Hyd: tua 8-10 munud yr un

Mae 4 rhan i'r prawf llafar.

Yn Rhan 1, rhaid i chi a'r ymgeisydd ddarllen deialog yn uchel. Chi sy'n dechrau.

Yn Rhan 2, rhaid i chi ofyn 8 cwestiwn i'r ymgeisydd amdano/amdani ei hun.

Yn Rhan 3, rhaid i chi ofyn 5 cwestiwn i'r ymgeisydd am y person ar dudalen 4 ar y daflen hon.

Yn Rhan 4, bydd yr ymgeisydd yn gofyn cwestiynau i chi, gan ddefnyddio'r sbardunau a roddir ar dudalen 5. Dylech chi ateb y cwestiynau hyn yn gryno, heb ymhelaethu, mewn un frawddeg.

Mae'r cwestiynau i gyd wedi eu nodi yma (heblaw am ddau gwestiwn ymestynnol yn Rhan 2). Dylid cadw at y sgript, heb ofyn cwestiwn ychwanegol.

Ar ôl croesawu'r ymgeisydd i'r ystafell gyfweld, dylid rhoi taflen yr ymgeisydd iddo/iddi ar ddechrau'r prawf a rhoi **dwy funud** iddo/iddi edrych drwyddi.

Wrth ddarllen y ddeialog yn uchel, dewiswch **naill ai** fersiwn y de **neu** fersiwn y gogledd.

1. Darllen yn Uchel

Fersiwn y De

Cyfwelydd: Prynhawn da.

Ymgeisydd: Dw i'n gweithio ar brosiect Cadw Cymru'n Heini.
Ga'i ofyn cwestiwn neu ddau i chi?

Cyfwelydd: Dw i'n brysur iawn, mae'n ddrwg gyda fi.

Ymgeisydd: Bydda i'n cymryd tua deg munud o'ch amser chi, dyna i gyd.

Cyfwelydd: Deg munud! Does dim munud i'w sbario gyda fi.

Ymgeisydd: Dau gwestiwn cyflym, felly. Yn gynta, faint o ymarfer
dych chi'n wneud bob wythnos?

Cyfwelydd: Dim o gwbl.

Ymgeisydd: Yn ail: Pryd oedd y tro diwetha i chi gerdded
am fwy na chwarter awr?

Cyfwelydd: 1999, falle. Reit, rhaid i fi fynd. Hwyl!

Fersiwn y Gogledd

Cyfwelydd: Prynhawn da.

Ymgeisydd: Dw i'n gweithio ar brosiect Cadw Cymru'n Heini.
Ga'i ofyn cwestiwn neu ddau i chi?

Cyfwelydd: Dw i'n brysur iawn, mae'n ddrwg gen i.

Ymgeisydd: Mi fydda i'n cymryd tua deg munud o'ch amser chi, dyna i gyd.

Cyfwelydd: Deg munud! Does gen i ddim munud i'w sbario.

Ymgeisydd: Dau gwestiwn cyflym, felly. Yn gynta, faint o ymarfer
dach chi'n wneud bob wythnos?

Cyfwelydd: Dim o gwbl.

Ymgeisydd: Yn ail: Pryd oedd y tro diwetha i chi gerdded
am fwy na chwarter awr?

Cyfwelydd: 1999, ella. Reit, rhaid i mi fynd. Hwyl!

2. Cwestiynau i'r ymgeisydd

Dylid gofyn y cwestiynau isod i'r ymgeisydd, gan ddilyn y drefn hon. Gyda chwestiwn 6 ac 8, dylid gofyn cwestiwn ymestynnol, ar sail ymateb yr ymgeisydd i gwestiwn 5 a 7, e.e.

Cwestiwn 5: Beth dych chi'n hoffi'i wneud yn eich amser sbâr?
Ymgeisydd: Dw i'n hoffi nofio.
Cwestiwn 6: Ble dych chi'n hoffi nofio? / Lle dach chi'n hoffi nofio?
Ymgeisydd: Dw i'n nofio yn y ganolfan hamdden.

Fersiwn y De

1. Sut mae'r tywydd heddiw?
2. Beth yw'ch gwaith chi?
3. Oes teulu gyda chi?
4. Ble dych chi'n dysgu Cymraeg?
5. Beth wnaethoch chi ddoe?
6. [Cwestiwn ymestynnol]
7. Beth dych chi'n hoffi'i wneud yn eich amser sbâr?
8. [Cwestiwn ymestynnol]

Fersiwn y Gogledd

1. Sut mae'r tywydd heddiw?
2. Be' ydy'ch gwaith chi?
3. Oes gynnoch chi deulu?
4. Lle dach chi'n dysgu Cymraeg?
5. Be' wnaethoch chi ddoe?
6. [Cwestiwn ymestynnol]
7. Be' dach chi'n hoffi'i wneud yn eich amser sbâr?
8. [Cwestiwn ymestynnol]

3. Cwestiynau am y llun

Dyma'r llun a'r sbardunau sydd ar daflen yr ymgeisydd.



Dyma Ffion.

gweithio:	mewn ysbyty
ddoe:	darllen llyfr
teulu:	2 fab/hogyn
byw:	Caergybi
amser sbâr:	[Llun/Picture]

Dwedwch wrth yr ymgeisydd am edrych ar y llun, yna gofynnwch y cwestiynau isod:

Fersiwn y De

1. Ble mae Ffion yn gweithio?
2. Beth wnaeth hi ddoe?
3. Oes teulu gyda Ffion?
4. Ble mae hi'n byw?
5. Beth mae Ffion yn hoffi'i wneud yn ei hamser sbâr?
[cwestiwn yn seiliedig ar y llun]

Fersiwn y Gogledd

1. Lle mae Ffion yn gweithio?
2. Be' wnaeth hi ddoe?
3. Oes gan Ffion deulu?
4. Lle mae hi'n byw?
5. Be' mae Ffion yn hoffi'i wneud yn ei hamser sbâr?
[cwestiwn yn seiliedig ar y llun]

4. Yr Ymgeisydd yn Gofyn Cwestiynau i'r Cyfwelydd

Dwedwch wrth yr ymgeisydd eich bod yn symud i ran nesaf y prawf a dweud wrtho/wrthi am ofyn cwestiynau i chi.

Rhaid i'r ymgeisydd ofyn 5 cwestiwn i chi gan ddefnyddio'r sbardunau isod (sydd ar y daflen).

Does dim angen dweud y gair yn uchel wrth yr ymgeisydd.

Rhaid i'r ymgeisydd ofyn cwestiynau yn cynnwys y geiriau / ymadroddion sydd ar y daflen yn eu tro, e.e.

yn wreiddiol

>> 'O ble dych chi'n dod yn wreiddiol?'

1. heno
2. o'r gloch
3. neithiwr
4. car
5. gweithio

Dylech chi ateb yr ymgeisydd mewn brawddeg yn unig, heb ymhelaethu. Ar ôl gorffen, diolchwch i'r ymgeisydd am y sgwrs, cyn ffarwelio. Ar ôl i'r ymgeisydd fynd o'r ystafell gyfweld, dylid gwirio bod y cyfweliad wedi ei recordio.

